# Shirley **Webb**

***Teitl Swydd:*** *Gladiator, Sky Television a chyn athletwr Olympaidd*
***Cymwysterau:*** *BSc mewn Mathemateg (Prifysgol Caeredin)*

**Cofiaf fy athrawes yn gofyn i mi, pan oeddwn yn bump oed, "Beth fuaset ti'n wneud gyda £100?". Fy ateb i oedd y buaswn yn gadael yr ysgol a phrynu pwll nofio. Meddai, "Stori ardderchog, Shirley. Ond beth fuaset ti'n wneud heb fathemateg?" Atebais "Buaswn yn ei wneud adref!" Byth ers hynny, mae mathemateg wedi bod yn nerth a chariad i mi.**

Ar ôl cymryd TGAU Mathemateg flwyddyn yn gynnar, euthum ymlaen i gael graddau A yn fy lefelau A mewn mathemateg a mathemateg bellach. Nid oedd cwestiwn ynghylch beth i'w astudio mewn prifysgol – roeddwn eisiau i fathemateg fod yn ddyfodol i mi. Roedd dewis ble i astudio dipyn yn anoddach.

Bu chwaraeon erioed yn rhan fawr o'm bywyd. Fy mhrif chwaraeon ar y pryd oedd deifio o astell ddeifio ac astell uchel. Ni chymerais y cynnig o le ym Mhrifysgol Rhydychen er mwyn mynd i Brifysgol Caeredin, ble mae pwll nofio gyda chyfleuster deifio gwych. Gorffennais fy BSc mewn mathemateg mewn dwy flynedd a graddiais yn 2002.

Rwyf yn gredwr cryf yn y dywediad "mae rheswm dros bob peth". Tra'r oeddwn yng Nghaeredin, cyfarfûm â Chris Black, oedd wedi taflu'r morthwyl mewn dwy o'r Gemau Olympaidd. Roeddwn wedi mwynhau gwneud athletau cyn hyn, ond roedd mewnbwn Chris i'm taflu morthwyl yn golygu fy mod wedi gwella'n ddramatig.



*"Sicrhewch na fyddwch byth yn edrych yn ôl ar eich bywyd a dweud "Biti na fuaswn i wedi...."*

Am y pedair blynedd ddiwethaf rwyf wedi bod yn yn athletwr llawn amser yn cael fy ariannu gan y Loteri. Ar hyn o bryd fi yw Pencampwr Prydain, Daliwr Record yr Alban ac enillydd Cwpan Ewrop 2005. Rwyf hefyd wedi cystadlu yn y Gemau Olympaidd, Pencampwriaethau'r Byd, Gemau Prifysgolion y Byd, Pencampwriaethau Ewropeaidd dan 23 a dwy o Gemau'r Gymanwlad.

Mae bywyd fel athletwr yn ddwys iawn. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf rwyf wedi rhoi deg awr y dydd bob dydd (heb ddyddiau gorffwys) i daflu'r morthwyl. Mae hyn yn golygu hyfforddiant corfforol, a hefyd astudio ffilmiau ohonof fi fy hun a'r taflwyr morthwyl gorau yn y byd. Mae gen i feddalwedd hollti sgrin arbennig er mwyn gwylio dau daflwr morthwyl ochr yn ochr â'i gilydd. Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn defnyddio fy nghymwysterau mathemateg yn uniongyrchol, ond mae deinameg taflu morthwyl yn hynod gymhleth ac rwyf yn sicr fod fy nghefndir mathemateg wedi fy helpu i ddeall y gystadleuaeth.

Rwyf wrth fy modd yn bod yn athletwr. Mae'r hyfforddiant yn galed iawn ond mae cystadlu ar lwyfan y byd yn anrhydedd fawr a'r mae'r wefr yn wych! Pan fydd fy ngyrfa mewn taflu'r morthwyl drosodd, rwy'n gobeithio dilyn gyrfa yn defnyddio mathemateg. Fy nghyngor i bob person ifanc yw: byddwch yn 100 y cant ymrwymedig i bob dim rydych yn ei wneud. Sicrhewch na fyddwch byth yn edrych yn ôl ar eich bywyd a dweud "Biti na fuaswn i wedi ....".

*" Sicrhewch na fyddwch byth yn edrych yn ôl ar eich bywyd a dweud "Biti na fuaswn i wedi ...."*

Shirley Webb

# Shirley **Webb**

***Job Title:*** *Olympic athlete – hammer thrower*
***Qualifications:*** *BSc Mathematics (University of Edinburgh)*

**I remember my teacher asking me, aged five, "What would you do with £100?" My answer was that I would leave school and buy a swimming pool. She replied, "Excellent story Shirley. But what would you do without maths?" I came back with "I'd just do it at home!" Ever since then mathematics has been both my strength and my love.**

After taking GCSE maths a year early I went on to get A grades at A level in both maths and further mathematics. There was no question what to study at university – I wanted maths to be my future. The choice of where to study was a bit tougher.

Sport had always been a huge part of my life. Springboard and highboard diving were my main sports at that time. I turned down the place offered to me by the University of Oxford in favour of the University of Edinburgh, where there is a swimming pool with a fabulous diving facility. I completed my BSc in mathematics in two years and graduated in 2002.

I am a strong believer in the saying 'there is a reason for everything'. It was whilst in Edinburgh that I met up with Chris Black, a two-time Olympic hammer thrower. I had enjoyed doing athletics before this but it was Chris's input to my hammer throwing which led to a dramatic improvement.



*"Ensure that you never look back on your life and say 'I wish I'd...'."*

So, for the past four years I have been a full-time, lottery-funded athlete. Currently I am the British Champion, Scottish record holder and European Cup winner 2005, and I have competed in Olympic Games, World Championships, World University Games, European Under-23 Championships and two Commonwealth Games.

Life as a full-time athlete is very intense. Over the past three years I have dedicated ten hours per day, every single day (with no rest days) to hammer throwing. This involves both physical training and also studying footage of myself and the best throwers in the world. I have special split-screen software to watch two throwers side-by-side. At present I do not use my mathematics qualifications day to day, though the dynamics of hammer throwing are highly complex, so my maths background gives me a clearer understanding the event.

I love being an athlete. The training is extremely tough but competing on a world stage is a massive honour and the buzz is amazing! When my hammer throwing career finishes I hope to pursue a career using maths.
My advice is to be 100 per cent committed to everything you do. Ensure that you never look back on your life and say "I wish I'd...".

*"Ensure that you never look back on your life and say 'I wish I'd...'."*

Shirley Webb